Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
–
Equality and Social Justice Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
–
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

7 Ebrill 2022

Annwyl Huw

Ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: profiadau o'r system cyfiawnder troseddol

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi cytuno i gynnal cyfres o ymchwiliadau byr i gael dealltwriaeth well o brofiadau gwahanol grwpiau o bobl yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Bydd ein hymchwiliad undydd cyntaf, sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Mehefin 2022, yn archwilio lefel anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhlith pobl ifanc sydd wedi troseddu, neu sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad byr cychwynnol hwn wedi'i nodi ar ein tudalennau gwe.

Rwy'n tynnu eich sylw at y gwaith hwn yng ngoleuni cylch gwaith eich Pwyllgor. Bydd ein hymchwiliad yn amlwg yn canolbwyntio ar feysydd sy'n ymwneud yn bennaf â chydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Fodd bynnag, os hoffech i ni gynnwys unrhyw faterion penodol yn yr hyn y byddwn yn ei ystyried, neu os hoffech chi neu Aelodau o'ch Pwyllgor fod yn rhan o'r gwaith hwn mewn unrhyw ffordd, byddwn yn hapus i ymchwilio i'r posibiliadau.

Yn amlwg, byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad ein hymchwiliad.

Yn gywir

Jenny Rathbone
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol